Sut y gallwch helpu igefnogi manifffesto

# Cartref

## Cynhelir yr etholiadau i Senedd Cymru ar 6 Mai, ond nid yw ein hymgyrchu yn arafu dim!

**Wrth i ni symud tuag at y cyfnod nesaf rydym wedi rhoi rhestr o ffyrdd y gallech gefnogi gyda chyfathrebu ynghyd â faint o amser y gallai ei gymryd:**

**3 awr** Casglu a rhannu dyfyniadau byr, fideos neu luniau gan denantiaid yn ateb y cwestiwn "beth mae cartref yn ei olygu i chi?"

**2 awr** Ysgrifennu a rhannu astudiaeth achos sy'n cysylltu gyda themâu yr ymgyrch (digartrefedd – cynhwysiant digidol – yr economi – swyddi – iechyd – datgarboneiddio) templed yma

**1 awr** Defnyddio data rhanbarthol a thempled datganiad i'r wasg i gysylltu gyda'r cyfryngau yn lleol

**30 munud** Ffilmio a rhannu astudiaeth achos fideo sy'n cysylltu gyda themâu yr ymgyrch (digartrefedd – cynhwysiant digidol – yr economi – swyddi – iechyd – datgarboneiddio)

**10 munud** Trydaru negeseuon allweddol y maniffesto ynghyd â'r fideos ac astudiaethau achos sydd gennych yn barod enghreifftiau o negeseuon yma

**5 munud** Defnyddio #CaruCartrefi #HereForHomes ar y cyfryngau cymdeithasol wrth ochr eich cynnwys presennol sy'n berthnasol i'r maniffesto, fel y gallwn weld eich negeseuon a'u rhannu ar lwyfannau CHC

**1 munud** Aildrydaru a rhannu o gyfrifon CHC

**1 munud** Defnyddio cefndir brand Cartref ar gyfer unrhyw alwadau fideo allanol

## Pecyn Adnoddau Ymgyrch Cartref:

**Mae adran arbennig ar wefan ymgyrch *#Caru Cartrefi #HereForHomes* gydag adnoddau i'ch helpu i gefnogi ymgyrch y maniffesto.**

Mae pecynnau hollol ddwyieithog o ffeithluniau, delweddau cyfryngau cymdeithasol, pytiau fideo ac asedau brand, a bydd yr adran hon yn ehangu yn y misoedd nesaf gyda thempledi y medrir eu haddasu yn ogystal â phecynnau data cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r pecyn ar gael yma:
**www.hereforhomes.org.uk/cy/adnoddau**